**Cofnodion cyfarfod misol dyddiedig 14eg o Hydref 2025 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr.**

| **PRESENNOL** | |
|---|---|
| Eifion Williams | Eleri Wyn Thomas |
| Iolo Williams | Daniel Williams |
| Meleri Jones | Deiniol Tegid |
| Gareth Humphreys | Emyr Gareth |
| | |
| | |

| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
|---|---|---|
| | Agorwyd y Cyfarfod yn ffurfiol gan Y Cynghorydd Eifion Williams.(Cadeirydd). Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Owain Jones, Cynghorydd Dafydd Hughes, Cynghorydd Siân Williams a'r Cynghorydd Llŷr Evans.<br>i. Menter Felinheli - Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Cynrychiolydd Menter Felinheli ond rhoddwyd cyflwyniad lafar gan y Cynghorydd Deiniol Tegid ar y sefyllfa gyfredol.<br><br>Dywedodd mai prosiect ar gyfer lles y Gymuned yw Neuadd yr Eglwys. Mewn egwyddor mae'r Eglwys yng Nghymru yn cytuno rhoi'r adeilad i ddwylo'r Fenter; cyfnod y les i'w benderfynu eto ond gobeithir am gyfnod canolig.<br><br>Cyn fydd y prosiect yn cychwyn mae angen i'r Eglwys cael adroddiad ar yr adeilad cyn y gall yr adeilad fod o safon. Bydd yr adroddiad yn costio oddeutu £25,000. Mae hyn yn broses gan yr eglwys. Roedd oddeutu 30 - 40 o gyfranddalwyr mewn cyfarfod yn ddiweddar lle pleidleisiwyd i awdurdodi'r cyfarwyddwyr.<br><br>Mae oddeutu £150,000 ar gael i ddatblygu'r adeilad ond mae angen derbyn yr adroddiad gyntaf er mwyn gweld os yw'n addas ar gyfer ei ddatblygu. Gobeithir cynnal cyfarfod ar gyfer y Gymuned. Cyflwynwyd yn y cyfarfod syniadau cafwyd gan y gymuned yn ystod Carnifal Gŵyl y Felin. Bydd angen cael rhywfath o astudiaeth dichonoldeb ar sut i redeg.<br><br>Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad lafar hefyd gan ei fod o wedi rhoi ochr y Cyngor Cymuned i'r cyfarfod y cyfranddalwyr. | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd ei fod wedi dweud bod lle i ddwy neuadd o fewn y pentref gan fod y Neuadd Goffa ddim yn addas ar gyfer cynnal pob gweithred. Mae lle i edrych ar un system llogi'r neuaddau. Roedd y cyfarfod yn un positif iawn.<br><br>Bydd rhyw fath o "Drop in" yn cael ei gynnal yn y shed rhwng 6 - 8 y.h. ar y 27ain o Hydref i gyflwyno i'r gymuned y bwriad arfaethedig. Gofynnir am gefnogaeth y Cyngor Cymuned a chyflwyno datganiad o gefnogaeth i'r Fenter.<br><br>ii. Llywodraethwyr yr Ysgol - Penderfynwyd byddai'r Cynghorydd Eifion Williams yn cynrychioli'r Cyngor. | |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **1.2** | Cyfreithiwr y Cyngor - trafodwyd angen y Cyngor i gael Cyfreithiwr er mwyn adolygu prydlesau sydd o fuddiant y Cyngor Cymuned. Y Cynghorydd Daniel Williams i gael sgwrs a'r Cyn Cynghorydd Iestyn Harris ar y mater. | **CLERC** |
| **1.3** | Sul y Cofio - bydd gwasanaeth byr a seremoni ger y cloc yn cael ei gynnal dydd Sul 9fed o Dachwedd 2025 am 10:30 yn y Neuadd ac yn ger y Cloc. Mae cais am orchymyn cau'r ffordd i drafnidiaeth wedi ei wneud. Y Cynghorydd Eifion Williams yn trefnu'r rheolaeth Traffig. Gobeithir bod yr Archddiacon David Parry yn gallu bod yn bresennol, os bydd ddim mae'r Clerc yn gallu cymryd y gwasanaeth. | **CLERC** |
| **1.4** | Prydles Stad y Goron - trafodwyd y mater gan fod cyfnod y brydles yn dod i ben y mis hwn wedi 30 mlynedd. Penderfynwyd bod angen cytuno i brydles newydd. Y Clerc i anfon at asiant y Stad y Goran i ddatgan hyn. | **CLERC** |
| **1.5** | Llwybr Beicio ger safle'r cyn modurdy - mae Swyddog o uned Draffig/Trafnidiaeth wedi datgan ei fod yn barod i fynychu cyfarfod safle i drafod llwybr beicio ger y cyn Fodurdy. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon ato i drefnu'r cyfarfod. | |
| **1.6** | Gorchymyn Cynllunio Tref a Gwlad (Proses Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, fel y'i diwygiwyd Hysbysrwydd o dan Erthyglau 2C a 2D Cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio Datblygiad a gynhelir ar dir yn, ac yn agos at, Safle Cyn-Ferodo, Ffordd Caernarfon, Caernarfon. Cafwyd cyfarfod rhithiol gyda'r datblygwyr. Dyma'r nodiadau a gymerwyd gan y Cynghorydd Emyr Gareth ar y materion oedd y codi pryder i'r Cyngor:<br><br>**Uchder yr adeilad** - dim llawer y gallant wneud ond bydd mitigation o ran plannu goed yn cael ei wneud. Awgrym | |

| | | |
|---|---|---|
| | gan y Cynghorydd Dan Williams i ystyried pensaernïaeth yr adeilad, gyda ffafriaeth i adeilad heb linellau syth a llawer o wydr.<br><br>**Gwres 'gwastraff'** - Y Datblygwr yn ystyried opsiynau i ail-ddefnyddio'r gwres gwastraff, gydag adeiladau cyhoeddus yn cael eu ffafrio. Awgrymwyd pwll nofio Plas Menai. Os na fydd opsiynau addas, bydd y gwres gwastraff yn mynd i'r awyr (nid i'r Fenai)<br><br>**Swyddi** - disgwylir bydd mwy nag 80 o swyddi o safon (dim nifer pendant ond bosib yn sylweddol fwy na hynny - 80 swydd yn seiliedig ar data centre 50MW; m yn ae'r bwriad arfaethedig yma 300MW o faint). Bydd cynllun hyfforddi yn cael ei ddatblygu - o bosib i gydweithio efo Coleg Menai, Prifysgol Bangor ac MSparc. ***Awgrymu fod ni'n pwysleisio'r angen i gychwyn y cynllun CGaPh i helpu pobl leol i gystadlu am y swyddi.***<br><br>**Budd i'r gymuned** - hwn yn ychydig yn wan. Awgrymwyd bod y Cyngor yn rhoi awgrymiadau pendant ymlaen pan mae'r ymgynghoriad cynllunio yn cychwyn e.e. gwelliannau i'r Lôn Las<br><br>**Sŵn a llygredd** - fawr o fygythiad amlwg ac o bosib bydd yn well ymateb i hyn yn nes ymlaen (cais amlinellol fydd yn cael ei wneud yn y lle cyntaf - bydd manylion fel hyn yn dod allan fel 'reserved matters')<br><br>**Isadeiledd cysylltiedig** - Y Cyngor yn bryderus am y mater hwn. Mi fydd angen cysylltiad trydan newydd o sub-station Pentir a hefyd cysylltiad rhwydwaith newydd. Rhain am fynd trwy broses ymgynghori gwahanol. Ddim yn 100% clir os fydd y cysylltiad trydan o dan neu uwch ben y ddaear. ***Awgrymu fod ni'n gofyn am fwy o fanylion am hyn***.<br><br>**Yr effaith weledol** ac o bosib yr effaith yn ystod cyfnod adeiladu angen ei ystyried. Peryg bydd effaith gwaith gosod tebyg i'r gwaith ffordd sydd wedi bod ar lôn Beran / Llanberis am flynyddoedd. Y Clerc i anfon y manylion ymlaen i'r Datblygwyr. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| **2.1** | Cynghorydd Emyr Gareth ar gyfer eitem 1.4 | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | Derbyniwyd gwariant mis Medi 2025. Derbyniwyd hefyd adroddiadau ariannol ar gyfer yr y ddau fis. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |

| | | |
|---|---|---|
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Medi 2025. | |
| **4.2** | Cynllun Rheoli Traffig - cynlluniau arfaethedig ar gyfer yr awyddo'r drefn unffordd answyddogol i'w anfon at yr aelodau pan fyddant wedi eu derbyn. | **CLERC** |
| **4.3** | Llwybr Cerrig yr Afon - ymweliad safle wedi ei drefnu gyda'r contractwr a'r Cynghorydd Eifion Williams er mwyn rhaglennu'r gwaith. | **CLERC** |
| **4.4** | Ciosg Aber pwll - wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Cymuded. Y Cynghorydd Daniel Williams i edrych sut y gallem gau'r drws i sicrhau bod dim mynediad iddo. | **EW** |
| **4.5** | Cae Chwaraeon Lan y Môr - cais Cynllunio i'w gwblhau gan y Clerc a'r Cynghorydd Emyr Gareth er mwyn ei gyflwyno. | **CLERC/EG** |
| **4.6** | Gwasanaethau Bysiau a Safe Bws - cafwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd i'r Aelod Seneddol Siân Gwenllïan ar y gost i ddefnyddio'r gwasanaeth Bws o'r Felinheli. Yn anffodus oherwydd bod Cwmni Arriva yn un preifat nid oes llawer all Gyngor Gwynedd na Thrafnidiaeth Cymru i wneud am hyn. Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan y byddant yn trefnu i'r safle bws gael ei ail-baentio a hefyd bydd proses i ddiddymu rhan o'r gorchymyn dim parcio sydd ar y ffordd lle lleolir y safle bws. Penderfynwyd bod angen sicrhau bod y safle bws yn cael ei gadw yn glir ar unrhyw adeg a bod y Clerc i anfon at Trafnidiaeth Gwynedd i wneud cais bod y safle yn cael ei gyflwyno a chlirffordd bysiau. | **CLERC/EW** |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **5.2** | Rhif Cais: C25/0697/20/DT Lleoliad: 45 Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4PD Bwriad: Gosod 10 o baneli haul i ddrychiad blaen yn unig - **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **5.3** | Rhif Cais / Application: C25/0627/20/CC Lleoliad: Rear Of Porth Y Llechen, Y Felinheli, LL56 4JG Bwriad: Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Diogelu Coed. - **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **5.4** | Rhif Cais: C25/0708/20/DT Lleoliad: 11 Lôn Llwyn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4UJ Bwriadl: Codi balconi newydd i flaen yr eiddo. Dymchwel estyniad deulawr presennol i gefn yr eiddo. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo. - **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | **CLERC** |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| **7.1** | Er bod pris wedi ei wneud i gynnal y cysgodfannau nid yw'r contractwr wedi dod yn ôl gydag amserlen i gwblhau'r gwaith. Penderfynwyd gofyn i gontractwr arall i wneud y gwaith. Cynghorydd Dan Williams am ofyn i gontractwr lleol am bris i wneud to'r safle bws gyferbyn a'r siop. | **CLERC/DW** |
| **7.2** | Tir yr hen Rheilffordd – cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad am y cyfarfod lleoliad gyda John Hywyn Williams ynglŷn a gwella cynefin y safle. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae modd adfer y tir a fydd yn cynnwys torri a gwaredu y llystyfiant a'r mieri. Bydd modd hefyd gwneud cais am arian grant. Y cais i'w wneud gan y Cyngorydd. | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **8.1** | Gweler eitem 4.3 | **CLERC** |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Mae'r Cloc wedi ei drwsio. Mae angen golau newydd o fewn y cloc, y Cynghorydd Daniel Williams i fynd o gwmpas gosod un newydd yno. | **DW** |
| **9.2** | Mae to'r neuadd angen waith. Mae hyn oherwydd cyflwr yr hoelion sydd bellach yn 100 oed. Mae angen ail edrych ar gynllun eco ar gyfer y neuadd. Gobeithir cynnal ymgyrch hel sbwriel yn fuan ar Ddydd Sul | |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Angen cynnal hyfforddiant i'r gwardeiniaid gogyfer cydymffurfio ac asesiad risg Cyngor Gwynedd. | **EG** |
| | Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.40 yn yr hwyr. | |
| **Llofnod:** | | |



Heather Lynne Jones